# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19/10/23** |
| **Teitl:** | **Contract Bancio** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Darparu diweddariad ar Gontract Bancio'r Cyngor** |

1. **<u>Cefndir</u>**

Mae contract bancio'r Cyngor yn darparu ar gyfer ochr drafodaethol gweithgarwch bancio. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleusterau bancio (e.e. cyfrifon banc a bancio ar-lein) er mwyn bancio a chyfrifo trafodion gweithredol ar gyfer incwm a gwariant y Cyngor.

Mae dull buddsoddi ehangach y Cyngor (gan gynnwys ystyriaethau o ran parti i gontract) yn cael ei osod gan y Strategaeth flynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys sy'n cael ei hystyried gan y Cyngor Llawn. Nid yw'r contract bancio yn cynnwys gwasanaethau Casglu Diogel (e.e. arian parod / sieciau) ac nid yw'n cynnwys gwasanaethau masnachol ar gyfer dulliau talu ar-lein (e.e. cardiau debyd / credyd).

Darparwr presennol y Cyngor yw Barclays, gyda'r contract presennol yn parhau tan 29/02/24. Mae Barclays yn fanc sydd wedi'i leoli yn y DU, mae ganddo statws credyd A1 (Moody's) hirdymor ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth gwych i'r Cyngor. Mae Barclays wedi gweithredu gydag arbenigedd yn y sector llywodraeth leol ers dros 15 mlynedd ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau bancio trafodaethol i ychydig dan 25% o'r holl awdurdodau lleol ac mae'n dal perthynas trysorlys gyda bron i 70% yn y DU.

Y gost flynyddol gyfredol ar gyfer Gwasanaethau Bancio yw tua £10k i £15k y flwyddyn.

2. **<u>Y Broses Gaffael</u>**

Mae'r Cyngor wedi hysbysebu'r cyfle tendro newydd yn agored drwy GwerthwchiGymru gan ddefnyddio eDendroCymru. Dyma borth caffael Llywodraeth Cymru lle mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn hysbysebu cyfleoedd contract. Bydd unrhyw ddarpar gyflenwr sydd wedi cofrestru ar y porth ac sydd â diddordeb mewn Gwasanaethau Bancio wedi derbyn hysbysiad o dendr y Cyngor.

Roedd y tendr ar agor am gyfnod o 1 mis calendr o 04/09/23 tan 04/10/23 a chynigir contract newydd ar sail 7 mlynedd, gydag opsiwn i'w ymestyn am 2 flynedd arall. Mae cryn dipyn o waith gweithredol yn gysylltiedig â newid banciau, a dyna pam y ceir cyfnod contract hirach na'r cyfartaledd. Bydd y tendr yn cael ei werthuso ar sail rhaniad 30% Pris / 70% Ansawdd gyda chyfanswm o 200 marc ar gael.

Er bod y ffocws yn y meini prawf ansawdd yn bennaf ar ofynion gweithredol craidd, gan gynnwys materion allweddol megis seiberddiogelwch a mesurau gwrth-dwyll, rhoddir pwysiad a sylw hefyd i Fuddiannau Cymunedol (5 marc) a materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (15 marc).

## 3. Y Sefyllfa Bresennol

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r tendr wedi cau ac mae 2 Gyflenwr wedi cyflwyno tendr. Bydd y broses gwerthuso tendr ffurfiol nawr yn cael ei chynnal. Mae Rheolau Gweithdrefn y Contract yn atal enwau cynigwyr rhag cael eu datgelu yn ystod y broses gwerthuso tendr.

| | |
|---|---|
| **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** | Naddo |
| **Os naddo, nodwch pam** | |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:** Amherthnasol<br>**Integreiddio:** Amherthnasol<br>**Cydweithio:** Amherthnasol<br>**Cynnwys:** Amherthnasol<br>**Atal:** Amherthnasol |
| **Argymhelliad:** | 1. Nodi'r diweddariad a ddarparwyd ar gontract Gwasanaethau Bancio'r Cyngor |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Pob un |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Y Gyllideb Cyllid a Chaffael |
| **Pwerau Statudol:** | |
| **Atodiadau:** | Dim |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael |
| **Swyddogion Adrodd:** | Duncan Hall<br>Justin Davies<br>Mark Bridges<br>George Ryley |
| **Dyddiad:** | 04/10/23 |